trosedd a chosb

Dros y canrifoedd mae agweddau tuag at droseddu a'r dulliau o ymdrin â'r rhai sy'n torri'r gyfraith wedi newid yn fawr. Mae troseddau treisgar, fel llofruddiaeth a thrais, wedi cael eu cyfri fel y rhai mwyaf difrifol erioed. Fodd bynnag, yn y gorffennol roedd pobl yn cael cosbau llym am droseddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai difrifol erbyn heddiw, fel potsio, dwyn ac achosi difrod i eiddo.

Roedd y cosbau'n amrywio o gyfnod yn y cyffion, chwipio, llosgnodi, crogi, ac o 1678 ymlaen eu dedfrydu i'w halltudio i Ynysoedd y Caribi neu drefedigaethau'r America. Roedd troseddau fel rhegi, anfoesoldeb a bod yn grwydryn yn cael eu trin mewn ffordd debyg i ladrata ac ymosod ar bobl.

"Teulu'r potsiwr yn apelio ar ei ran gerbron y sgweiar" (1817).

Carchar Rhuthun - Rheolau i Garcharorion, tua 1850 (Archifdy Sir Ddinbych).

Roedd gan grefydd ddylanwad mawr ar farn pobl tuag at drosedd a chosb tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd gan yr Eglwys ei llysoedd ei hun. Fe'u gelwid yn Lysoedd Consistori, ac roeddyn ym ymdrin â phynciau a throseddau moesol - cosbwyd am droseddau fel masnachu ar y Sul, athrodi cymydog, godineb, cael plentyn anghyfreithlon neu syrthio i gysgu yn ystod gwasanaeth eglwys drwy gyfaddefiad cyhoeddus, penyd neu dalu dirwy.

ymchwilio i droseddau

Tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd pob plwyf yn penodi ei gwnstabl di-dâl ei hun. Roedd ei bwerau'n gyfyngedig: dim ond os oedd dioddefwr trosedd yn adrodd am y drosedd wrth ynad lleol y cai gadw unrhyw un ar amheuaeth o gyflawni'r drosedd. Yn yr 1820au roedd un cwnstabl i bob 3,000 o bobl oedd yn byw yn Llundain. Yn 1829 ffurfiodd Syr Robert Peel yr Heddlu Metropolitan. Cyfeiriwyd at yr heddlu proffesiynol cyntaf fel "bobbies" neu "peelers."

Roedd Deddf Heddlu Sirol 1839 yn caniatau i ynadon y tu allan i Lundain benodi prif gwnstabliaid. Sefydlwyd heddluoedd rhanbarthol, wedi ei seilio ar batrwm yr Heddlu Metropolitan, a roedd mwy o drefn i'r broses o ymchwilio i a datrys troseddau.

When a felon's not engaged in his employment,
Or maturing his little felon plans,
His capacity for innocent enjoyment,
Is just as great as any honest man's
Our feelings with difficulty we smother,
When constabulary duties to be done,
Ah, take one consideration with another,
A policeman's lot is not a happy one...When constabulary duties to be done,
A policeman's lot is not a happy one, happy one...

(Pirates of Penzance: W.S. Gilbert a Syr Arthur Sullivan.)



ffotograffeg a chymryd olion bysedd

Ffotograffeg

Gwnaeth ffotograffeg gyflwyno ffordd i'r heddluoedd newydd gadw cofnodion ffotograffig o droseddwyr. Yn yr 1850au tynnwyd y lluniau cyntaf o garcharorion gan ffotograffwyr proffesiynol ond cafodd yr heddlu eu camerau eu hunain yn fuan a dechreuwyd cadw cofnodion ffotograffig eang. Cyhoeddwyd lluniau'r troseddwyr a'u disgrifiadau (yn cynnwys unrhyw greithiau neu farciau amlwg eraill) yn y "Police Gazette" a'u dosbarthu rhwng heddluoedd.

John Price

(Archifdy Sir Ddinbych.)

Dartmoor Prison.
John Price. Reg. N o. 9697.
Liberated 18th Nov 1868, Wrexham.
Committed 3rd Mar 1869, Ruthin Ass. for Robbery with violence.
Sentenced 7 years Penal Servitude.
Complexion Sallow.
Hair: Black, Eyes: Light grey.Height 5ft. 9 1/2 inches.
Marks, scars, upper lip, left [temple] left eye brow, left thumb and forefinger.
Right knee & lower part of back.
Boil mark: back of neck.
Lost 2 upper teeth, nose crooked.
Mole on left breast and on back. 2nd toes on both feet bent.
Destination: Wrexham.

Thomas Bill

(Denbighshire Record Office.)

Central Police Office Liverpool" £5 Reward.
Embezzling £100, from employer.
Thomas Bill, absconded on Thursday the 1st August 1867.
28~30 years of age, 5 feet 7 1/2 inches.
high, dark complexion, dark brown hair, moustache, and whiskers which are sheared off the chin.,very high forehead, medium stance, slow gait and bending his back when walking ; generally dressed in black clothes and billy-cock hat .

His parents reside at 66, High Street, Mold, Flintshire.

Olion bysedd

Cyflwynwyd yr arfer o gymryd olion bysedd yn Scotland Yard yn 1901. Yn wreiddiol roedd olion bysedd yn cael eu defnyddio fel ffordd o gadw cofnod o droseddwr. Fodd bynnag, gan nad oes gan unrhyw ddau berson yr un olion bysedd, yn fuan roeddynt yn cymryd olion bysedd

troseddwyr i'w defnyddio i nodi eu bod wedi ymwneud a throseddau diweddarach.